YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor yr Haf 2023 – Y Tonnau -Miss James

Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw creu dinasyddion moesol, gwybodus sy'n deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd yng nghydestun glan y môr. Byddwn yn anelu at greu dysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn datblygu corff o wybodaeth a geirfa am y traeth a'r anifeiliaid sydd yn preswylio yna. Wrth roi'r profiad o ymweld â glan y môr ymdrechwn i ddatblygu dysgwyr chwilfrydig ac ymholgar, sy'n gofyn cwestiynau'n naturiol er mwyn darganfod mwy. Gobeithiwn ddatblygu cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n gallu cyfathrebu yn effeithiol pwysigrwydd ailgylchu, a'r effaith ceiff llygredd ar anifeiliaid. Ceisiwn feithrin dinasyddion sy'n deall eu cyfrifoldebau er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y môr a'n planed.

## Bant â ni i gynllunio!




Rydw i'n gallu clywed y tonnau ar y traeth.

Oscar

Pa anifeiliaid sy'n byw yn y môr?

Toby

Sawl traeth sydd yn Abertawe?

Daniel

Pam ydy'r môr yn dod mewn a mas?

Hanna

Rydw i eisiau helpu casglu sbwriel ar y traeth.

Georgia

Rydw i'n hoffi bwyta hufen iâ.

Branwyn

Ydyn ni'n gallu adeiladu cestyll tywod ar y traeth?.

Eli

Rydw i eisiau mynd i'r traeth.

Ben

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor yr Haf 2023 – Y Tonnau -Miss James



Syniad mawr y tymor hwn:

## Lawr ar lan y môr

Dyma rhai o'n syniadau.

**Iechyd a Lles**

- Cadw'n ddiogel ar lan y môr, gan gynnwys peryglon dŵr
- Trwy chwarae, archwilio, darganfod a gofyn cwestiynau
- Ymarfer a datblygu fy sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad

**Y Dyniaethau**

- Cael y profiad o ymweld â thraeth lleol
- Enwi gwahanol gyrchfannau glan mor Abertawe
- Bod yn chwilfrydig am draddodiadau glan y môr
- Cymharu arferion glan y môr slawer dydd a heddiw
- Deall bod gan fy ngweithredoedd i ac eraill effaith a chanlyniad
- Effaith llygredd ar yr amgylchedd naturiol.

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Ymateb yn ddychmygol i seiniau a cherddoriaeth
- Cynllunio a pherfformio sioe pypedau
- Defnyddio deunyddiau naturiol i greu 'celf dros dro'

**Profiadau**

- Ymweld â'r traeth
- Ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
- Cyfweld ag achubwr bywyd

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBrynymor1**

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Dysgu am blanhigion ac anifeiliaid sy'n byw ar lan y môr
- Defnyddio fy synhwyrau wrth archwilio glan y môr (gwrando, arogli, teimlo ac edrych)
- Dangos chwilfrydedd wrth ymweld â'r traeth
- Cynnal ymchwiliad gwyddonol a rhagfynegi pa wrthrychau bydd yn arnofio a suddo
- Archwilio priodweddau defnyddiau
- Dewis defnyddiau penodol i greu cwch sy'n arnofio
- Dosbarthu sbwriel yn ôl eu deunydd
- Dylunio poster i annog ailgylchu ar ein traethau trwy ddefnyddio meddalwedd gyfarwydd
- Dysgu sut i ychwanegu enw ar ddarn o waith a dechrau arbed gwaith

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Creu cornel chwarae rôl: Siop Glan y Môr, siop hufen iâ (dysgwyr i bleidleisio)
- Gwrando ar lawer o straeon a barddoniaeth sy'n ymwneud â'r syniad mawr
- Dysgu geirfa, a chaneuon sy'n ymwneud â'r syniad mawr
- Gweithgareddau Tric a Chlic ac Iaith ar Daith
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol e.e.. gwahoddiad (Pori Drwy Stori) rhestrau siopau, poster.

**Mathemateg a Rhifedd**

- Datblygu dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau
- Dosbarthu sbwriel a chasglu data
- Ymchwilio i fesurau, siâp a phatrwm
- Adnabod, defnyddio a chreu cyfansymiau darnau arian trwy chwarae rôl
- Datrys problemau syml yn ymarferol.